PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY 1872

Rhifyn 29 – Hydref 2017




Dr Dylan Gwynne-Jones o IBERS yn dysgu myfyrwyr yn Nhai Gwydr y Gerddi Botaneg.

# Newyddion ABER

## Prifysgol y Flwyddyn ar gyfer Ansawdd y Dysgu

### Mae Prifysgol Aberystwyth wedi ei henwi yn Brifysgol y Flwyddyn ar gyfer Ansawdd y Dysgu yn *The Times and Sunday Times Good University Guide 2018.*

Dyma'r tro cyntaf i'r wobr fawreddog hon gael ei dyfarnu i brifysgol yng Nghymru gan y *Good University Guide*, a gyhoeddwyd ddydd Sul 24 Medi 2017.

Mae tabl cynghrair y *Good University Guide* hefyd yn dyrchafu Prifysgol Aberystwyth i'r 50 prifysgol uchaf, naw lle yn uwch na'r llynedd, ac yn safle 47 yn y DU o 131 o sefydliadau addysg uwch.

Mae Prifysgol Aberystwyth hefyd wedi dringo i'r 10 uchaf yn y DU a'r gyntaf yng Nghymru am brofiad myfyrwyr - i fyny 11 lle o'i gymharu â 2017.

Dywedodd Golygydd *The Good University Guide*, Alastair McCall, bod Prifysgol Aberystwyth wedi cymryd camau breision yn y blynyddoedd diweddar i wella profiad myfyrwyr: "Mae myfyrwyr Aberystwyth wedi'i deall hi ac wedi bod yn barod iawn i gydnabod hynny. Mae'r Brifysgol wedi sicrhau rhai o'r sgorau mwyaf nodedig yn y DU gan fyfyrwyr am ansawdd y dysgu mae'n ei gynnig. Mae'n un o nifer bach iawn o brifysgolion sydd wedi cynyddu eu sgoriau boddhad myfyrwyr yn y maes hwn ers y llynedd, a hynny yng nghyd-destun Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr llymach."

Dywedodd Is-Ganghellor Prifysgol Aberystwyth, yr Athro Elizabeth Treasure: "Rwyf wrth fy modd bod ein gwerthoedd addysgol uchel wedi cael eu cydnabod gan y Good University Guide 2018. Mae'r wobr annibynnol hon yn gadarnhad digamsyniol o ymdrechion eithriadol ein staff i gynnal y safonau uchaf ac i sicrhau bod gan raddedigion Aberystwyth yr wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu potensial."

2 Gwobrau er Anrhydedd 2018

6 Golwg ar... yr Adran Ystadau

8 Yn ogystal â'm swydd o ddydd i ddydd...

10 Paratoi am bartneriaeth ar AIEC

14 Golwg ar... y Ganolfan Saesneg Ryngwladol


Cyhoeddir Newyddion ABER gan y Tîm **Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus**, Prifysgol Aberystwyth.
**Ffôn:** 01970 622578
**E-bost:** cyfathrebu@aber.ac.uk

Bydd y rhifyn nesaf o Newyddion Aber ar gael ym mis **Chwefror**. Dyddiad cau ar gyfer y rhifyn nesaf yw **Dydd Llun 11 Rhagfyr**.

# Gwobrau er Anrhydedd 2018

Y Seremonïau Graddio yw uchafbwynt ein blwyddyn academaidd. Yn ogystal â dathlu llwyddiannau ein graddedigion, rydym hefyd yn manteisio ar y cyfle i gyflwyno Gwobrau er Anrhydedd. Yn draddodiadol, Cymrodoriaethau er Anrhydedd a gyflwynir, ond ers 2015 rydym hefyd wedi cyflwyno graddau Doethur a graddau Baglor er Anrhydedd.

Rhywsut, rydym yn llwyddo i gadw enwau'r rhai a fydd yn derbyn Gwobrau er Anrhydedd yn gyfrinach tan ychydig cyn wythnos y graddio – mae hyn yn dipyn o gamp o ystyried bod yr holl broses yn cychwyn yr hydref blaenorol.

Mae'r broses yn cychwyn gyda gwahoddiad i gymuned y Brifysgol enwebu unigolion addas i'w hystyried ar gyfer Gwobr er Anrhydedd. Yna cyflwynir yr enwebiadau hyn i'r Pwyllgor Gwobrau er Anrhydedd i'w hystyried ymhellach. Mae'r Pwyllgor hwn fel arfer yn cyfarfod tua diwedd mis Hydref/ dechrau mis Tachwedd, ac mae'n gyfrifol am ddethol tua 12 o enwau o blith yr enwebiadau a ddaw i law i'w hargymell i'r Senedd ac yna i'r Cyngor eu cymeradwyo.


Unwaith y bydd yr enwau a argymhellir am Wobrau er Anrhydedd wedi'u cymeradwyo gan y Senedd a'r Cyngor, bydd y Brifysgol yn cysylltu â'r unigolion dan sylw i weld a ydynt yn hapus i dderbyn y gwobrau hyn. Dyma un o'r rhesymau pam mae cyfrinachedd mor bwysig i'r broses, oherwydd ni all pob enwebiad fynd ymlaen i'r cam nesaf. Hefyd, mae'n bosib y bydd rhai unigolion, am ba bynnag reswm, yn dewis peidio â derbyn y cynnig o Wobr er Anrhydedd, ac y byddai'n well ganddynt pe na bai eu penderfyniad yn cael ei gyhoeddi.

**Sut i enwebu**
Gall holl staff a myfyrwyr y Brifysgol, yn ogystal ag aelodau o'r cyhoedd, gyflwyno enwebiadau. Ceir manylion llawn, gan gynnwys ffurflen enwebu, ar-lein yn: www.aber.ac.uk/cy/about-us/honorary-awards. Mae'r wefan hon hefyd yn nodi'r meini prawf a ddefnyddir gan y Pwyllgor Gwobrau er Anrhydedd wrth ystyried yr enwebiadau.

Y dyddiad cau ar gyfer enwebu unigolion i'w hystyried ar gyfer Wythnos y Graddio 2018 yw **dydd Llun 23 Hydref 2017**. Serch hynny, gellir cyflwyno enwebiadau trwy gydol y flwyddyn, a'u dal yn ôl tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor. Ac os ydych yn ansicr ynglŷn â chyflwyno enw i'w ystyried, gallwch ofyn am gyngor anffurfiol trwy ysgrifennydd@aber.ac.uk.

Gorau po fwyaf o enwebiadau a ddaw i law. Y nod yw gweld cymysgedd diddorol o unigolion yn cael eu hargymell am Wobrau er Anrhydedd – unigolion y gallwn ddathlu eu llwyddiannau a'u cyfraniadau, ac a fydd yn ysbrydoli cymuned y Brifysgol gyfan.

**Geraint Pugh**, Ysgrifennydd y Brifysgol



*Y Trysorydd Dr Timothy Brain yn cyflwyno Gradd Baglor er Anrhydedd i Dai Alun Jones i gydnabod ei gyfraniad i chwaraeon a'r gymuned leol.*

# Anrhydeddau y Brifysgol 2017

Anrhydeddwyd wyth o bobl gan y Brifysgol yn ystod seremonïau graddio 2017, a gynhaliwyd yng Nghanolfan y Celfyddydau rhwng 18-21 Gorffennaf.

**Cymrodoriaethau er Anrhydedd:**
Cyflwynwyd chwe Chymrodoriaeth er Anrhydedd i unigolion a chanddynt gysylltiad ag Aberystwyth neu â Chymru ar hyn o bryd neu yn y gorffennol, ac sydd wedi gwneud cyfraniad eithriadol i'w dewis feysydd:

**Lance Batchelor**, cyn-fyfyriwr o Aberystwyth a Phrif Swyddog Gweithredol Saga ccc

**Yr Athro Martin Conway**, Cymrawd a Thiwtor Hanes yng Ngholeg Balliol, Rhydychen, ac Athro Hanes Ewropeaidd Cyfoes.

**Heini Gruffudd**, cyn-fyfyriwr o Aberystwyth, athro, awdur, ac ymgyrchydd iaith, a chadeirydd Dyfodol i'r Iaith.

**Gareth Howell**, sy'n raddedig yn y Gyfraith o Aberystwyth sydd wedi dangos arweinyddiaeth arloesol wrth ddyfeisio atebion ymarferol mewn gwledydd sy'n wynebu pontio eithafol yn eu bywyd cenedlaethol.

**Dr Louise Rickard**, sydd wedi ennill dros gant o gapiau Rygbi Cymru ac yn raddedig o Aberystwyth (BSc Anrhydedd Sŵoleg, PhD Bioleg y Môr), a Phennaeth Bioleg yn Suffolk.

**Dato' Mohamed Sharil bin Mohamed Tarmizi LLB**, cyn-fyfyriwr o Brifysgol Aberystwyth a chyn-reoleiddiwr telegyfathrebu, cyfryngau a phost ym Malaysia.

**Graddau Baglor er Anrhydedd:**
Cyflwynwyd dwy radd Baglor er Anrhydedd. Cyflwynir y rhain i unigolion sy'n aelodau o staff Prifysgol Aberystwyth heb radd lefel-mynediad, i gydnabod eu gwasanaeth hir, eu cyfraniad a'u hymrwymiad i'r Sefydliad; ac i aelodau o'r gymuned leol sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol i Aberystwyth a'r cyffiniau.

**David Alun Jones**, Is-Lywydd Cymdeithas Pêl Droed Cymru a Llywydd Cymdeithas Pêl-droed Canolbarth Cymru.

**Alan Lovatt**, Uwch-fridiwr Glaswellt yn Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) ym Mhrifysgol Aberystwyth.

## Colofn yr Is-Ganghellor



Ar ddechrau blwyddyn academaidd arall, rwy'n gobeithio bod y newyddion am ddewis Aberystwyth yn Brifysgol y Flwyddyn ar gyfer Ansawdd y Dysgu wedi rhoi gwên ar eich wyneb chithau, fel minnau. Pa ffordd well o gyfarch ein myfyrwyr hen a newydd na'r newyddion bod eu prifysgol wedi ennill un o brif anrhydeddau'r *Times & Sunday Times Good University Guide 2018*?

Mae'r wobr yn rhoi sêl bendith ddigamsyniol ar ein hymdrechion i godi safonau dysgu ac ysgolheictod yn Aber yn uwch nag erioed. Nid da lle gellir gwell ac wrth i ni osod y bar yn uwch eto, hoffwn ddiolch i chi am eich cyfraniad at y llwyddiant diweddaraf hwn. Daw'r anrhydedd yma wrth gwrs yn dynn ar sodlau ail flwyddyn o ganlyniadau eithriadol yn Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr, a chyfraddau uwch nag erioed o gyflogaeth graddedigion. Mae'r rhain yn llwyddiannau go iawn y gallwn ni gyd ymfalchïo ynddynt.

Mae'r gwelliant dramatig yn ein perfformiad yn y tablau cynghrair yn rhoi sylfaen gadarn i ni wrth ddatblygu'n gweledigaeth ar gyfer prifysgol gynhwysol, groesawgar ac amrywiol; prifysgol sy'n gosod bri ar addysgu ac ymchwil er mwyn cynnig profiad myfyrwyr trawsnewidiol. Wrth i'r Cynllun Strategol pum mlynedd bresennol ddod i ben, mae fy sylw wedi'i hoelio ar y dyfodol. Y cwestiwn allweddol i mi - ac ar gyfer y sefydliad cyfan - yw ble ydyn ni'n dymuno bod ymhen pum mlynedd? Pa fath o brifysgol ydyn ni am i Aber fod ar gyfer staff a myfyrwyr? Nid wyf yn sôn am newid chwyldroadol ond mae angen i ni lunio amcanion a dyheadau newydd fydd yn ganllaw wrth i ni fynd i'r afael â heriau heddiw. Nawr yw'r amser i godi llais. Byddaf yn cynnal cyfarfod briffio staff yn fuan yn ogystal ag yn eich gwahodd i gyflwyno'ch sylwadau a'ch cyfraniadau ar-lein - yn ddienw os yn well gennych. Manteisiwch ar y cyfle i borthi'r broses hon wrth inni siapio'n Prifysgol ar gyfer y dyfodol.

Yn ystod y chwe mis ers dechrau ar fy swydd, rwyf wedi gweld newidiadau go iawn ar draws yr ystâd. Mae'r gwaith tirlunio diweddar o gwmpas adeilad Hugh Owen yn hynod ddeniadol; y cladin newydd ar Bont Cledwyn yn drawiadol o drwsiadus, ac rwy'n mwynhau'r olygfa agored newydd o piazza Canolfan y Celfyddydau yn sgil dymchwel y bont droed. Fel y tablau cynghrair, mae'r datblygiadau hyn hefyd yn creu argraff ar ein hymwelwyr ac yn cryfhau naratif gynyddol bositif y Brifysgol.

Edrychaf ymlaen at rannu newyddion da'r Brifysgol yn ein hail Ddiwrnod Agored y tymor hwn ar 13 Hydref. Diolch eto am eich holl waith caled a'ch cefnogaeth.

**Yr Athro Elizabeth Treasure**
Is-Ganghellor

# Penodi Cadeirydd newydd i'r Cyngor

## Penodwyd Dr Emyr Roberts yn Gadeirydd Cyngor y Brifysgol.

Ar hyn o bryd Dr Roberts yw Prif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru a bydd yn ymddeol ym mis Hydref 2017 ar ôl pum mlynedd wrth y llyw.

Cyn ymuno â Chyfoeth Naturiol Cymru, bu Dr Roberts yn gweithio i Lywodraeth Cymru mewn cyfres o swyddi uwch yn y gwasanaeth sifil, gan gynnwys Cyfarwyddwr Cyffredinol Addysg a Sgiliau, Cyfarwyddwr Cyffredinol Gwasanaethau Cyhoeddus a Llywodraeth Leol, a Phrif Weithredwr Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO).

Yn enedigol o bentref Benllech ar Ynys Môn, mae gan Dr Roberts gysylltiadau agos â Phrifysgol Aberystwyth. Graddiodd gyda doethuriaeth o'r Brifysgol ym 1988; daeth yn Gymrawd Anrhydeddus yn 2013, ac mae wedi bod yn aelod o Gyngor y Brifysgol ers 2015.

Bydd Dr Roberts yn cychwyn ar ei ddyletswyddau fel Cadeirydd y Cyngor ym mis Ionawr 2018, gan olynu Syr Emyr Jones Parry sydd wedi bod yn Gadeirydd y Cyngor ac yn Ganghellor y Brifysgol am gyfnod llawn o ddeng mlynedd.




Fe benderfynodd y Brifysgol yn gynharach eleni i wahanu'r ddwy rôl gyda'r Arglwydd Thomas o Gwmgiedd - cyn Brif Ustus Cymru a Lloegr - yn ymgymryd â dyletswyddau anrhydeddus y Canghellor o fis Ionawr 2018.

# Cymrodoriaeth y Gymdeithas Rheoleg

## Mae'r Athro Ken Walters MSc PhD DSc (Cymru) FLSW FRS, wedi ei ethol yn un o Gymrodyr y Gymdeithas Rheoleg, a hynny er mwyn cydnabod ei ysgolheictod eithriadol ym maes Rheoleg.



Mae'r Athro Walters yn Athro Ymchwil Nodedig yn Athrofa Mathemateg, Ffiseg a Chyfrifiadureg Prifysgol Aberystwyth, ac mae'n un o ddim ond dau Gymrawd o'r Deyrnas Unedig ar hyn o bryd.

Yn ei yrfa academaidd dros fwy na hanner can mlynedd, mae'r Athro Walters wedi gwneud nifer o gyfraniadau sylweddol i faes rheoleg a datblygu gwyddor rheoleg yn y DU. Mae wedi cyhoeddi'n helaeth ar y pwnc, gan gynnwys ei lyfr, *Rheometry*, sy'n gyfeirlyfr safonol.

Dyfarnwyd gradd DSc Prifysgol Cymru iddo yn 1985, a chafodd ei ethol yn Gymrawd y Gymdeithas Frenhinol yn 1991, ac yn Gymrawd Sefydlu Cymdeithas Ddysgedig Cymru yn 2009.

Cyflwynwyd Doethuriaeth er Anrhydedd iddo gan Université Joseph Fourier, Grenoble, Ffrainc, yn 1988, gan Brifysgol Strathclyde yn 2011, a chan Brifysgol Aberystwyth yn 2016.

Mae wedi derbyn sawl gwobr am ei waith, gan gynnwys Medal Aur Cymdeithas Rheolog Prydain yn 1984 a Gwobr Weissenberg gan Gymdeithas Rheolog Ewrop yn 2002.

# Cynghori'r Cynulliad Cenedlaethol ar heriau masnach Brecsit



Mae'r Athro Busnes Rhyngwladol yn Ysgol Fusnes Aberystwyth, Nicholas Perdikis yn darparu cyngor ymchwil arbenigol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar sut mae Brecsit yn debygol o effeithio ar economi Cymru.

Mae'r Athro Perdikis, sy'n arbenigwr blaenllaw ar fasnach ryngwladol a pholisi masnach, newydd ddechrau ar Gymrodoriaeth Academaidd bum mis gyda Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn edrych ar sut y gall ymadawiad y DU o'r UE effeithio ar sectorau allweddol o'r economi.

Mae ei benodiad yn rhan o gynllun peilot sy'n galluogi uwch-academyddion o brifysgolion Cymru i dreulio amser yng Nghomisiwn y Cynulliad yn gweithio ar brosiect sydd o fudd i'r ddwy ochr.

Hyd at fis Ionawr 2018, bydd yr Athro Perdikis yn rhannu ei amser rhwng cartref y Cynulliad Cenedlaethol ym Mae Caerdydd a Phrifysgol Aberystwyth.

Fel rhan o'i gylch gwaith, bydd yn edrych ar sut y gallai ystod o senarios effeithio ar fasnach yng Nghymru, gan gynnwys dim bargen o gwbl neu fasnachu ar delerau Sefydliad Masnach y Byd, yn ogystal ag aelodaeth o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd fel trefniant trawsnewid.

# Statws cofrestredig Gradd II i Adeilad Cledwyn

## Mae'r adeilad cyntaf a godwyd ar Gampws Penglais Prifysgol Aberystwyth wedi cael statws cofrestredig Gradd II er mwyn ei ddiogelu i'r oesoedd a ddêl.

Dyluniwyd Adeilad Cledwyn gan Syr Percy Thomas (1883-1969), un o benseiri pennaf Cymru yn yr ugeinfed ganrif ac roedd yr adeilad yn rhan bwysig o gam cyntaf gwaith datblygu Campws Penglais.

Yr Hen Goleg ar lan y môr oedd cartref gwreiddiol y Brifysgol, ond pan ddaeth 36 hectar safle Penglais i ddwylo'r Brifysgol yn 1929, fe wnaed cynlluniau i ganolbwyntio datblygiadau'r dyfodol ar y safle newydd.

Yn 1935 paratôdd Percy Thomas gynllun ar gyfer y campws newydd, ac fe'i penodwyd yn bensaer i'r tri adeilad cyntaf i'w codi, sef Cledwyn, Pantycelyn a'r pwll nofio.

Agorwyd Adeilad Cledwyn yn 1937 a dyma oedd cartref Gorsaf Fridio Planhigion Cymru a'r Adran Economeg Amaethyddol.

Cafodd yr adeilad ei enwi wedyn ar ôl y gwleidydd Llafur, Cledwyn Hughes, y Barwn Cledwyn o Benrhos CH PC (1916-2001), a fu'n Llywydd ar Goleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth o 1976 tan 1985.



# Mae Pob Ymchwilydd yn Cyfrif

Vitae realising the potential of researchers — Member Organisation

## Fel rhan o ymrwymiad y Brifysgol i gefnogi datblygiad gyrfa ymchwilwyr, mae staff yn cael cynnig nifer o gyfleoedd hyfforddi rhagorol.

**Ddydd Mercher, 22 Tachwedd**, bydd Dr Andy Cope, Syflaenydd *The Art of Being Brilliant*, yn arwain sesiwn hyfforddi ryngweithiol.

Nod y sesiwn, a gynhelir rhwng 9yb a 1yp, yw rhannu rhai o gyfrinachau seicoleg gadarnhaol, gan ganolbwyntio ar ddysgu arferion meddwl ac ymddygiad newydd fydd yn cynnal disgleirdeb personol. Mae'n ymwneud â 'chi yn gyflawn' ac mae felly'n gymwys yn y gwaith a thu hwnt. Mae'n agored i bob ymchwilydd gan gynnwys cynorthwywyr ymchwil ôl-ddoethurol yn ogystal â staff sy'n ymchwilio'n weithredol ac ar gontractau di-ymchwil.

Nifer cyfyngedig o lefydd sydd ar y rhaglen ysbrydoledig hon sy'n newid bywydau.

Archebwch le drwy ebostio drbi@aber.ac.uk

Mae Ymchwil Busnes ac Arloesi hefyd wedi datblygu rhaglen newydd o saith sesiwn awr i unrhyw un sy'n newydd i rôl ymchwil weithredol yn y Brifysgol (staff gweithredol o ran ymchwil gan gynnwys cynorthwywyr ymchwil ôl-ddoethurol).

Y pynciau dan sylw yw:

- Ymgeisio am grantiau ymchwil
- Moeseg ac unplygrwydd ymchwil
- Rheoli data ymchwil
- Effaith ymchwil (ymgysylltu â'r cyhoedd)
- Rheoli grantiau ymchwil
- Cyfathrebu ymchwil yn agored
- Beth yw'r REF?

Mae Ymchwil Busnes ac Arloesi yn bwriadu rhedeg y rhaglen hon sawl gwaith y flwyddyn gan ddibynnu ar y galw, gyda'r rhaglen gyntaf yn dechrau ar **Dydd Mercher 25 Hydref**. Bydd sesiynau'n cynnwys egwyddorion pob pwnc a hefyd protocolau Aberystwyth. I gael rhagor o wybodaeth ebostiwch drbi@aber.ac.uk

### Sut beth yw bod yn Ymchwilydd Ôl-ddoethurol yn Aberystwyth?

Rydym ni am wybod sut beth yw bod yn Ymchwilydd Ôl-ddoethurol yn PA. Cwblhewch yr arolwg ar-lein byr am gyfle i ennill taleb Amazon: www.surveymonkey.co.uk/r/Q5K7LJ7



Yn ddiweddar ymunodd Prifysgol Aberystwyth â *The Conversation*, sef gwefan newyddion a sylwebaeth annibynnol a gynhyrchir gan academyddion a newyddiadurwyr. Golygydd *The Conversation* yng Nghymru yw Ruth Dawson ac yma mae'n esbonio mwy am amcanion y wefan a sut y gall academyddion Aber gyfrannu ati:

# Ymuno â THE CONVERSATION



Lansiwyd *The Conversation* yn wreiddiol yn Awstralia yn 2011 ac ers hynny mae wedi ehangu i gynnwys nifer o rifynnau rhyngwladol, gan gynnwys lansio rhifyn y DU yn 2013.

Mae'r wefan yn ffynhonnell annibynnol o newyddion a safbwyntiau o'r gymuned academaidd ac ymchwil, a gyflwynir yn uniongyrchol i'r cyhoedd. Ei nod yw cynnig gwell dealltwriaeth o faterion cyfoes a materion cymhleth trwy ddarparu mynediad at newyddiaduraeth annibynnol, dibynadwy, o ansawdd uchel.

Gall pob ymchwilydd yn Aberystwyth gyfrannu, gan gynnwys myfyrwyr PhD.

Gall ysgrifennu ar gyfer *The Conversation* olygu cynnig sylwadau ynghylch materion cyfoes, y newyddion diweddaraf, esbonio ymchwil, neu hyd yn oed ddatblygu mwy o straeon nodwedd.

Er bod golygydd yn cael ei neilltuo i weithio gyda phob ymchwilydd, unig ddiben y broses olygu yw sicrhau bod y cynnwys yn glir ac yn gywir. Caiff gwaith ei olygu ar y cyd, ac mae'r tîm yn barod i drafod ac yn agored i awgrymiadau. Hefyd, cyn y gellir cyhoeddi unrhyw erthygl yn enw'r ymchwilydd, rhaid i'r academydd roi ei gymeradwyaeth derfynol.

Fel Golygydd Cymru, ariennir fy rôl gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i weithio'n benodol gydag academyddion ym Mhrifysgolion Cymru i ddatblygu deunydd ar gyfer *The Conversation.*

Byddaf ym Mhrifysgol Aberystwyth un diwrnod y mis i gynnal sesiynau cychwynnol neu hyfforddiant, a thrafodaethau unigol gyda'r rhai sydd â diddordeb mewn cyfrannu at *The Conversation.* Gallaf eich helpu i ddod i arfer â chyfrannu at y wefan, meithrin sgiliau cyfryngau, a'ch cynghori ynghylch pa straeon sy'n gweithio, sut i daro'r cywair priodol, a sgiliau ysgrifennu cyffredinol.

Cysylltwch â mi os hoffech gael rhagor o wybodaeth ac, yn y cyfamser, mae croeso i chi gael golwg ar y wefan (theconversation.com/uk) a chofrestru ar gyfer ein cylchlythyr.

Ruth Dawson, Golygydd Cymru | 07837 196633 | @ruth_dawson | ruth.dawson@theconversation.com

# Golwg ar…
# yr Adran Ystadau

## Mae adeiladau ac eiddo'r Brifysgol hon ymhlith y mwyaf amrywiol o holl brifysgolion campws Prydain. Yn ogystal ag adeiladau hanesyddol, mae'r Brifysgol yn berchen ar ffermydd, ac adeiladau arobryn, arloesol.

Mae ein campysau, tir ac adeiladau yn llawer mwy na brics a morter; maen nhw'n darparu amrywiaeth eang o ardaloedd dysgu, mannau gweithio, gweithrediadau masnachol ac un o'r profiadau preswyl gorau i fyfyrwyr.

Daw'r adnoddau gwych hyn â chyfrifoldebau yn eu sgil; cyfrifoldeb sylweddol i gynnal, gwella a datblygu'r stâd yn gynaliadwy ac effeithiol. Dyna waith yr Adran Ystadau. Bu NewyddionABER yn siarad â'r Rheolwr Gweithrediadau, Maria Ferreira.

**Beth sydd wedi newid yn ddiweddar yn yr Adran Ystadau?**
Mae'r adran wedi gweld nifer o newidiadau sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Penodwyd Andrea Pennock yn Gyfarwyddwr yn Rhagfyr 2016, croesawyd tîm Gwasanaethau Eiddo yn ôl atom a thîm Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd y Brifysgol i mewn i'r Adran. Rydym wedi newid ein teitl o'r 'Adran Datblygu Ystadau' i'r 'Adran Ystadau' sy'n adlewyrchu'n well gwmpas ehangach ein gwaith.

Rydym hefyd wedi symud, ac fe ddewch o hyd i ni bellach yn yr adeilad a oedd yn gartref i Feithrinfa Ddydd Penglais ar Ffordd Penglais.

**Ar ba waith mae'r adran yn canolbwyntio ar hyn o bryd?**
Yn 2015, fe wnaeth Cyngor y Brifysgol gytuno i gyllid cyfalaf sylweddol o dan y cynllun Gwarchod a Sefydlogi (prosiect pum mlynedd o leiaf), a fydd yn galluogi gwaith adnewyddu mawr i'r ystâd.

Mae'r gwaith cyfalaf yn canolbwyntio'n bennaf ar adeiladau, megis adnewyddu concrit, toeau a ffenestri, ond yn cymryd y cyfle hefyd, lle bo'n bosibl, i edrych ar waith mwy sylweddol yn gyfochrog â ffrydiau cyllido posibl eraill. Mae'n canolbwyntio hefyd ar adnewyddu'r isadeiledd, er enghraifft gwasanaethau trydan a gwasanaethau eraill, ac ar dirluniau caled, meysydd parcio a heolydd.

Er mwyn cynorthwyo i flaenoriaethu'r gwaith, rydym wedi penodi ymgynghorwyr i gynnal Arolwg Cyflwr. Cafodd Cam Un y gwaith hwn ei gwblhau, a bydd yr ymgynghorwyr yn dechrau


*Pont a sbardun Cledwyn cyn i'r gwaith adnewyddu ddechrau.*


*Pont a sbardun Cledwyn ar ôl gosod y deunydd insiwleiddio, gosod ffenestri gwydr dwbl a newid arwyneb y to.*



ar Gam Dau yn fuan. Rydym wrthi'n adolygu'r adroddiadau ar hyn o bryd ac, ynghyd â'r hyn a wyddom am waith cynnal a chadw sy'n aros i gael ei wneud, byddwn yn paratoi amserlen waith fanwl ar gyfer pob adeilad.

**Pa welliannau sydd eisoes wedi eu gwneud?**
Man cychwyn y buddsoddiad sylweddol oedd diweddaru ac adnewyddu'r prif ystafelloedd dysgu canolog yn 2014, gosod cyflenwad dŵr newydd, a gosod bwyler a rheolyddion newydd, yn ogystal â gweithredu am y tro cyntaf fwyler biomàs a phwmp gwres o'r ddaear, sy'n darparu ffynhonnell gynaliadwy o wres i adeiladau'r Brifysgol.

Yn ystod yr haf eleni, yn ogystal â gwneud gwaith y tu ôl i'r llenni fel petai, buom wrthi'n gwneud gwaith cynnal a chadw amlwg iawn sydd wedi ennyn llawer o ddiddordeb. I enwi ambell enghraifft yn unig, rhoddwyd cladin ar Bont Cledwyn, tynnwyd y bont a oedd yn arwain at Ganolfan y Celfyddydau ac adnewyddwyd yn llwyr labordy C66 yn Llandinam, mewn pryd i'r Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear ddathlu ei chanmlwyddiant.

**Beth yw'r uchafbwyntiau?**
Mae ein gwaith yn weladwy iawn a gallwn gael dylanwad mawr ar wella profiad myfyrwyr, staff ac ymwelwyr â'r campysau. Mae gweld pobl yn defnyddio'r cyfleusterau newydd a'r rhai sydd wedi'u hadnewyddu yn rhoi llawer o foddhad i ni. Cawn dipyn o bleser hefyd o weld y campysau ar eu gorau, yn enwedig ar gyfer dyddiadau allweddol megis Graddio a'r Diwrnod Agored, a chael adborth cadarnhaol.

**A'r isafbwyntiau?**
Nid yw gwaith adeiladu byth yn ddu a gwyn, ac nid yw pobl bob amser yn deall pan nad yw pethau'n mynd yn ôl y bwriad. Gall cyfyngiadau ar y gyllideb fod yn rhwystredig, yn ogystal â'r cyfle bychan iawn sydd gennym i wneud gwaith sylweddol – mae'r Brifysgol ar agor bron 365 o ddiwrnodau bob blwyddyn felly mae'n anodd cadw pawb yn hapus.

**Beth sydd yn yr arfaeth i'r Adran Ystadau?**
Mae'r Brifysgol ar drothwy cyfnod cyffrous iawn. Mae pobl yn sylweddoli fwyfwy bod angen i'r ystâd ddatblygu, a bod yn rhaid i ddatblygiad strategol yr ystâd gael ei ystyried yn elfen ganolog o genhadaeth strategol ddatblygol y Brifysgol.

Rydym eisoes wedi buddsoddi miliynau o bunnoedd mewn gwelliannau, ond bydd angen mwy o fuddsoddi eto i ddenu a chadw'r staff a myfyrwyr o safon sy'n angenrheidiol i gynnal safle Aberystwyth fel Prifysgol ymchwilio a dysgu o safon fyd-eang, sydd hefyd yn cynnig profiad campws cwbl unigryw.

I gael rhagor o wybodaeth, gan gynnwys sut i gysylltu â ni, ewch i'n gwefan: www.aber.ac.uk/cy/estates/

*Datgymalu pont Piazza Canolfan y Celfydyddau*






Athro daearyddiaeth ddynol yn yr Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear yw Mark Whitehead. Enillodd wobr Darlithydd y Flwyddyn yng Ngwobrau Dysgu UM Aber 2017. Fodd bynnag, yn ogystal a'i waith dyddiol mae Mark yn cwblhau 'Sialens 13 mewn 12' eleni – hynny yw rhedeg tair ar ddeg hanner marathon mewn deuddeg mis.



# Yn ogystal â'm swydd o ddydd i ddydd...

*Mark gyda'i wraig Sarah, a'i ferched*

**Beth symbylodd chi i ymgymryd â'r her hon?**
Fy symbyliad pennaf yw codi arian ar gyfer *Meningitis Now* sy'n cefnogi ymchwil i ddatblygu brechlynnau ar gyfer gwahanol fathau o'r clefyd. Mae hwn yn salwch ofnadwy sy'n taro'r hen a'r ifanc, ond mae'n un y gellir canfod ffyrdd o'i wella. Yr ail symbyliad yw cadw'n ffit ac yn fywiog yn fy neugeiniau, sydd bob amser yn her.

**Sut hyfforddi rydych chi'n ei wneud?**
Mewn wythnos pan na fyddaf yn rhedeg hanner marathon byddaf fel rheol yn rhedeg rhwng 5 a 10 cilometr 2-3 ddwywaith neu dair. Byddaf hefyd yn ceisio gwneud dwy sesiwn nofio yr wythnos er mwyn arbed fy nghoesau. O bryd i'w gilydd byddaf hefyd yn rhedeg ymhellach, tua 15 cilometr. Pan fyddaf yn rhedeg hanner marathon, mae'n debyg y byddwn yn rhedeg unwaith yn ystod yr wythnos ac yn cael cryn dipyn o orffwys.

**Sut fyddwch chi'n treulio'r diwrnod cyn i chi redeg hanner marathon?**
Diwrnod o orffwys fydd hwn fel rheol. Felly traed i fyny amdani. Byddaf yn ceisio egluro wrth fy ngwraig y dylwn i ymatal rhag unrhyw ddyletswyddau domestig, ond dydy hi ddim fel pe bai hi'n llyncu hynny!

**Beth yw'r peth cyntaf fyddwch chi'n ei wneud ar ôl i chi redeg hanner marathon?**
Os bydd hynny'n bosibl y peth cyntaf fyddaf i'n ei wneud ar ôl hanner marathon yw ceisio rhoi fy nghoesau mewn dŵr oer. Mae hyn yn help gwirioneddol i'w hadfer. Pan oeddwn ar wyliau yn Sir Benfro fe redais i dair hanner marathon – yna roeddwn i'n gallu mynd yn syth i'r môr. Os na fyddaf yn gallu rhoi fy nghoesau mewn dŵr oer, bydd y dyddiau ar ôl hanner marathon yn cael eu treulio yn hercian o gwmpas (gall grisiau fod yn sialens ryfeddol).

**Beth fu'r uchelbwyntiau hyd yma?**
Yr uchafbwynt oedd cwblhau Hanner Marathon Caer. Llwyddais i redeg mewn amser da, ond yr uchafbwynt pennaf oedd gweld fy ngwraig a'm dwy ferch ar y llinell derfyn.

**Beth fu'r iselfannau hyd yma?**
Yn ystod fy hanner marathon gyntaf roeddwn i'n rhedeg gyda chroth fy nghoes dde dan straen. Ar ôl chwe milltir digwyddodd yr un peth i'r goes arall. Dyna beth oedd saith milltir olaf faith.

**Beth sydd yn eich annog i ddal ati os byddwch yn cael trafferthion?**
Rydw i'n cael trafferthion yn aml pan fyddaf yn rhedeg. Mae fy symbyliad yn deillio o'r achos rydw i'n rhedeg drosto a'r bobl sydd wedi bod mor garedig yn fy noddi.

**Pa fath o bethau fydd yn mynd drwy'ch meddwl wrth ichi redeg?**
Faint o amser sydd gennych chi? Pob math o bethau mewn gwirionedd. Fy mhrif ffocws bob amser yw cael cwpanaid blasus o de ar ddiwedd y ras.

**Fyddech chi'n hoffi rhedeg marathon lawn?**
Rydw i wedi rhedeg marathon neu ddwy yn y gorffennol (unwaith eto codi arian at *Meningitis Now* oedd y nod). Serch hynny roedd dwy yn fwy na digon.

**Oes gennych chi gynghorion i rywun sydd â diddordeb mewn dechrau rhedeg?**
Fe fydd pethau'n anodd ar y dechrau, ond mae'r gwobrau corfforol a seicolegol yn sicr o fod o werth. Mae dau beth y byddaf yn ceisio'u cofio pan fyddaf yn rhedeg. Y cyntaf yw peidio â rhedeg er mwyn byw yn hwy, ond rhedeg er mwyn byw yn well. Y llall yw nad yw'n mynd yn haws, ond byddwch chi'n dod yn well.

**A all pobl eich noddi yn y gamp enbydus hon?**
Gallant - os oes ar bobl eisiau fy noddi, gallant fynd at:
www.justgiving.com/fundraising/mark-whitehead10

Hanner Marathon Conwy ym mis Tachwedd fydd fy ras nesaf.

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY 1872

www.aber.ac.uk/cy/sportscentre



# Ffit Rhwydd

## Ffitrwydd Grŵp

Hydref 2017

# Dod yn ffit gyda'n gilydd

## DYDD LLUN

| AMSER | DOSBARTH |
|---|---|
| 09.15 - 10.00 | Sbin Boreuol |
| 12.00 - 13.00 | Sbin Sportif |
| 12.15 -13.00 | Hyfforddiant Dwysedd Uchel |
| 13.10 - 13.55 | Aerobeg |
| 14.00 - 15.30 | Ioga i Ddechreuwyr |
| 16.00 - 17.00 | Ioga Ifanc |
| 17.00 - 19.00 | Ioga Ashtanga |
| 17.30 -18.30 | Stepio a Ffyrfhau |
| 17.45 - 18.30 | Sbin Gallu Cymysg |
| 18.30 - 19.30 | Pilates |
| 19.00 -20.30 | Ioga Hatha |

## DYDD MAWRTH

| AMSER | DOSBARTH |
|---|---|
| 12.10 - 12.55 | Sbin Lan a Lawr |
| 12.15 - 13.00 | Pilates Gofal Cefn |
| 13.10 - 13.55 | Craidd Abtastig |
| 13.15 - 14.00 | Sbin Lan a Lawr |
| 16.00 - 16.45 | Cylched Arddegau* |
| 17.30 - 18.30 | Hyfforddiant Cylchol Aber |
| 17.30 - 18.30 | Stepio a Ffyrfhau |
| 17.30 - 18.15 | Cychwyn Sbinio |
| 18.30 - 19.30 | Bodyfit |
| 18:30 - 19:30 | Zumba |
| 19.00 - 20.00 | Nofio Treiathlon |

## DYDD MERCHER

| AMSER | DOSBARTH |
|---|---|
| 07.30 - 08.15 | Sbin Ben Bore |
| 09.15 - 10.00 | Sbin Bore Da |
| 09.30 - 10.15 | Rhiant a Babi |
| 12.10 - 13.00 | Sbin Lan a Lawr |
| 12.15 -13.00 | Bodyfit |
| 13.10 - 13.55 | Pilates Pêl Ffitrwydd |
| 17.30 - 18.15 | Hyfforddiant Dwysedd Uchel |
| 17.30 - 18.15 | Pwysau Llaw |
| 18.15 - 19.15 | Pilates |
| 18.30 - 19.30 | Gornest Gardio |
| 19.30 - 20.30 | Ioga i Bawb |
| 20.30 - 21.30 | Ffit Ddawns Tywyll |

## DYDD IAU

| AMSER | DOSBARTH |
|---|---|
| 07.15 - 08.00 | Nofio Treiathlon |
| 08.15 - 09.00 | Sbin Dethol |
| 12.15 - 13.00 | Craidd Abtastig |
| 12.15 - 13.15 | Sbin Lan a Lawr |
| 13.10 - 13.55 | Pilates |
| 16.15 - 17.00 | Ffit Ddawns Ifanc |
| 17.30 - 18.30 | Hyfforddiant Cylchol Aber |
| 17.30 - 18.30 | Ffit Ddawns |
| 17.30 - 18.15 | Cychwyn Sbinio |
| 18:30 - 19:30 | Zumba |
| 18.30 - 19.30 | Bodyfit |

*Bydd yr holl ddosbarthiadau yn gorffen 5 munud cyn yr amser a nodwyd i ganiatáu amser i newid drosodd rhwng sesiynau*

*I weld pwy sy'n dysgu sesiwn ac i gael rhagor o wybodaeth ewch i'n gweddalennau*

## DYDD GWENER

| AMSER | DOSBARTH |
|---|---|
| 07.30 - 08.15 | Sbin Ben Bore |
| 10.30 - 11.15 | Campfa Dŵr |
| 12.15 - 13.00 | Cylched Caled |
| 13.10 - 13.55 | Pwysau Llaw |
| 16.00 - 17.00 | Ioga Pŵer |
| 17.00 - 18.30 | Ioga i Bawb |
| 17.30 - 18.15 | Hyfforddiant Dwysedd Uchel |
| 18.00 - 18.45 | Sbin Lan a Lawr |
| 18.30 - 19.30 | Zumba Ffyrfhau |

*Ffôn: 01970 622280*

*Ebost: sports@aber.ac.uk*

*www.aber.ac.uk/cy/sportscentre/classes*

## DYDD SADWRN

| AMSER | DOSBARTH |
|---|---|
| 09.05 - 10.05 | Sbin Lan a Lawr |
| 09.30 - 10.30 | Bodyfit |
| 10.45 - 11.45 | Pilates |

## DYDD SUL

| AMSER | DOSBARTH |
|---|---|
| 09.05 - 09.50 | Sbin Bore Da |
| 11.00 - 12.00 | Zumba |

*Mae'r rheolwyr yn cadw'r hawl i newid y rhaglen ar fyr rybudd.*

*I weld y manylion diweddaraf ewch i: www.aber.ac.uk/cy/sportscentre/classes/timetable*

I weld manylion aelodaeth staff a myfyrwyr ewch i:

www.aber.ac.uk/cy/sportscentre/membership/

Sport Aber

Campws Arloesi a Menter Aberystwyth
Aberystwyth Innovation and Enterprise Campus

# Paratoi am bartneriaeth ar Gampws Arloesedd a Menter Aberystwyth

Dr Rhian Hayward MBE, Prif Swyddog Gweithredol y Campws Arloesedd a Menter sy'n disgrifio datblygiad diweddaraf y prosiect £40.5m hwn - sef adnewyddu swyddfeydd i weithwyr sy'n arloesi yn sectorau'r biowyddorau ac amaeth-technoleg.



*Richard Glover-Davies o gwmni Gloversure Cyf gyda Rhian Hayward*

Bellach, mae tîm y Campws wedi dechrau ar y gwaith o hyrwyddo mwy o gydweithio rhwng y Brifysgol a'r gymuned fusnes. Agwedd allweddol ar y gwaith yw cael lleoliad i fusnesau a staff academaidd i weithio gyda'i gilydd, ac mae hyn yn awr yn bosibl ar ein safle yng Ngogerddan.

Ym mis Mehefin eleni, daeth Campws Arloesedd a Menter Aberystwyth Cyf, is-gwmni'r Brifysgol a fydd yn rhedeg adeiladau'r Campws newydd, yn denant swyddogol yn y Brifysgol - yn adeilad Cyngor Cefn Gwlad Cymru gynt yng Ngogerddan.

Gweithiodd y tîm yn gyflym wedyn i agor yr adeilad, sydd newydd ei adnewyddu, i denantiaid busnes.

Yn Adeilad Swyddfeydd y Campws Arloesi mae 17 o swyddfeydd parod, yn amrywio o ran maint i le i un gweithiwr i le i bedwar. Mae i bob swyddfa'r gwasanaethau a'r adnoddau angenrheidiol ac maent yn ddelfrydol i gwmnïau menter a'u gweithgareddau cychwynnol/deillio, neu i fusnesau sy'n tyfu ac angen lle proffesiynol, neu fel swyddfeydd allanol i gwmnïau mwy o faint a phencadlys y tu allan i'r ardal.

*Adeilad Swyddfeydd y Campws Arloesi*



Mae Adeilad Swyddfeydd y Campws Arloesi hefyd yn fan gwaith i'r Tîm Prosiect, sy'n gweithio ar brif brosiect y Campws Arloesi, ac yn rhoi cyfle i ni adeiladu cymuned fusnes newydd o ganolfan benodol. Cafodd nod tîm y Campws, sef datblygu cymuned fusnes newydd, ei lansio yn y Sioe Amaethyddol yn Llanelwedd ym mis Gorffennaf eleni ac fe gafwyd ymateb cadarnhaol iawn.





*Swyddfeydd yn Adeilad Swyddfeydd y Campws Arloesi*

Ochr yn ochr ag agor y swyddfeydd i gwmni-denantiaid, mae tîm y Campws Arloesi wedi dechrau tyfu. Ychwanegir Swyddog Gweinyddol, a Rheolwr Marchnata a Phartneriaethau at y tîm, a byddant yn cydweithio'n agos â'r Brifysgol i ddatblygu strategaethau i'w rhannu er mwyn ennyn diddordeb busnesau a meithrin perthynas gydweithrediadol, hir dymor gyda diwydiant fel llwybr tuag at ymchwil sy'n cael effaith.

Mae cymuned fusnes y Campws Arloesedd eisoes wedi dechrau tyfu, oherwydd cymerodd y tenant cyntaf - cwmni GloverSure Cyf - swyddfa yno ym mis Mehefin.

Sefydlwyd Gloversure gan gyn-fyfyriwr o Adran Cyfrifiadureg Prifysgol Aberystwyth, a'r Campws yw pedwerydd canolfan weithredu'r cwmni. Mae'r tair arall wedi'u lleoli yn Y Trallwng, Llanfair ym Muallt, a Chaer. Y bwriad yw recriwtio mwy o raddedigion Aber ac i lansio ap ffôn symudol Amaeth-Dechnegol yn 2017.




*Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion, Elin Jones, AS, Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a Rhian Hayward, yn lansiad y gymuned fusnes newydd yn y Sioe Frenhinol 2017.*

Yn ogystal â bod yn gyfle i fod yn denantiaid amser llawn, gall busnesau weithio gyda chymuned y Campws trwy gymryd Aelodaeth Gysylltiol (rhan-amser) neu Aelodaeth Rithiol o'r swyddfeydd - a fydd yn caniatáu iddynt le ac amser gyda staff academaidd, heb orfod ymrwymo i denantiaeth amser llawn.

Mae Adeilad Swyddfeydd y Campws Arloesi eisoes yn darparu canolbwynt defnyddiol ar gyfer datblygu'r Brifysgol ac ymestyn ei chysylltiadau busnes, ac ar gyfer dangos i ddiwydiant ehangder a dyfnder y posibiliadau cydweithrediadol sydd gennym i'w cynnig.

Mae cysylltiadau busnes gyda chwmnïau bach a chanolig eu maint yn lleol a thu hwnt eisoes yn cael eu hwyluso, a digwyddiadau rhwydweithio yn canolbwyntio ar fusnes wedi eu cynnal, er enghraifft 'Cwrdd â'r Noddwyr' ar 13 Medi. Daeth cynulleidfa helaeth o fusnesau a mentergarwyr i'r Campws Arloesi a bu'r achlysur yn llwyddiannus. Cafwyd cyflwyniadau gan Lywodraeth Cymru, Busnes Cymru, ac Innovate UK.

I gael rhagor o wybodaeth, a chymorth i greu cysylltiadau busnes, ewch i: www.aberinnovation.com/cy/gweithio-gyda-ni/gofod-swyddfa

**Twitter**: @aberinnovation

Dr Rhian Hayward MBE E-bost: rih@aber.ac.uk Ffôn: 01970 622837

# GO Wales - Cyflawni trwy Brofiad Gwaith

Mae'r tîm GO Wales yn rhan o Wasanaeth Gyrfaoedd y Brifysgol ac yn cynorthwyo myfyrwyr sy'n wynebu rhwystrau i gael gwaith, trwy drefnu cyfleoedd profiadau gwaith.

**Beth yw GO Wales – Cyflawni trwy Brofiad Gwaith (AtWE)?**
Bwriad GO Wales – AtWE yw cynorthwyo myfyrwyr sydd, yn ystadegol, yn fwy tebygol o gael anawsterau i ddod o hyd i swydd lefel graddedig. Rydyn ni'n gweithio'n benodol gyda myfyrwyr o dan 25 oed sy'n perthyn i un neu ragor o'r categorïau canlynol:

- Yn dod o gefndir tywyll/neu leiafrif ethnig
- Yn dioddef o gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar allu i weithio
- Yn dioddef anabledd
- Ganddynt gyfrifoldebau gwarchod plant/gofalwyr
- Wedi gadael gofal
- Yn dod o gymdogaeth lle nad oes ond ychydig yn mynd ymlaen i Addysg Uwch.

Rydyn ni'n gweithio gyda myfyrwyr i ystyried eu uchelgais o ran gyrfa a'r math o brofiad gwaith a fydd yn eu helpu i gyrraedd y nod, ac yna i geisio dod o hyd i brofiad gwaith perthnasol i'r yrfa.

**Pa fath o brofiad gwaith sydd ar gael?**
Gallwn drefnu profiad gwaith yn unrhyw le ac yn unrhyw ddiwydiant yng Nghymru. Mae tri dewis ar gael:

- **Cysgodi gwaith** – Hyd at dri diwrnod o brofiad gwaith di-dâl lle bydd y myfyriwr yn gwylio rhywun mewn swydd er mwyn deall sut y maent yn gwneud eu gwaith.
- **Rhagflas o waith** – Hyd at bythefnos o waith di-dâl lle caiff y myfyriwr gyfle i ddysgu am y gwaith a'r amgylchedd gwaith drwy arsylwi a chyflawni rhai tasgau.
- **Lleoliadau gwaith** - Pedair i chwe wythnos o brofiad gwaith uniongyrchol neu gwaith cyflogedig ar brosiect.

Gall myfyriwr ymgymryd ag unrhyw faint o gyfleoedd profiad gwaith ag y dymunant a gallwn ninnau eu cefnogi drwy gydol eu hamser yn y brifysgol.



Y Tîm GO Wales: O'r chwith i'r dde: Lorraine Spencer, Lewis Richards, Christina Evans

**Beth yw barn myfyrwyr am y prosiect?**
Roedd y profiad yn hynod o fuddiol, fel yr eglura un o'n myfyrwyr: *"Cysylltais â GO Wales i gael cymorth i ddod o hyd i brofiad gwaith ar lefel raddedig. Gan fy mod yn fyfyriwr anabl, roedd hi'n anodd dod o hyd i waith rhan-amser i dalu fy ffordd, a doedd gen i ddim syniad am y mathau o gyfleoedd oedd ar gael i mi nac am beth y byddai cyflogwyr yn chwilio. Roedd yr ymgynghorydd a welais yn GO Wales yn agos-atoch, yn gyfeillgar ac yn anhygoel o effeithiol ynglŷn â'r holl broses. Cefais ei help i bennu'n union yr hyn roeddwn i eisiau ei gael o'r broses, a hwylusodd y dasg o drefnu lleoliad a oedd yn addas i mi. Arweiniodd hyn yn y diwedd at gyfweliad a chael swydd yn yr adran lle roeddwn i wedi gweithio yn ystod fy lleoliad. Rwy'n sicr bod hyn wedi digwydd oherwydd y cynllun GO Wales a'r cymorth a roddwyd i mi yn ystod fy amser gyda hwy, ac rwy'n edrych ymlaen at ddefnyddio'r sgiliau a ddatblygais yn ystod fy lleoliad yn y gweithle nawr ac yn y dyfodol."*

**Pa gymorth ariannol sydd ar gael?**
Rydyn ni'n talu costau teithio a llety i fyfyrwyr sy'n ymgymryd â phrofiad gwaith y tu allan i Aberystwyth, a gallwn helpu hefyd gyda chostau gofal/gofal plant. Yn achos cyflogwyr sy'n cynnig lleoliadau am dâl, rydyn ni'n darparu cymhorthdal gwerth hanner y cyflog.

**Beth yw barn cyflogwyr am y prosiect?**
Mae cyflogwyr wedi cael argraff dda o waith y myfyrwyr rydyn ni wedi cael lleoliadau iddynt, fel y dywed Gwen Davies o'r *New Welsh Review: "Mae New Welsh Review yn mwynhau'r persbectif arbennig y mae myfyrwyr GO Wales yn ei gynnig i ni. Maen nhw'n rhoi cyfle i ni chwarae ein rhan a gwneud y byd cyhoeddi yn fwy amrywiol. Yn fy mhrofiad i mae'r myfyrwyr GO Wales a ddaeth i weithio gyda ni, myfyrwyr sy'n wahanol yn nhermau niwroleg neu iechyd meddwl, yn rhai arbennig o bleserus i gydweithio â hwy. Un enghraifft yw myfyrwraig a nodwyd yn 'neurodiverse', ac roedd bod yn ei chwmni yn bleser yn ystod lleoliad estynedig. Roedd hi'n ymwybodol o'i*

GO Wales Team gowales@aber.ac.uk 01970 622099

*meysydd gwahanol ac, er mai dim ond yn ei blwyddyn gyntaf ar lefel israddedig roedd hi, roedd hi eisoes wedi datblygu meysydd cydadferol lle roedd hi'n rhagori (er enghraifft delio gyda phobl a sgiliau ysgrifennu yn hytrach na chynllunio). Felly roedden ni'n gallu trefnu ei lleoliad o amgylch y cryfderau a'r gwendidau hyn. Heblaw hynny, gall ei dirnadaeth roi arweiniad i ddatblygiad ein gwefan mewn modd a fydd yn ei gwneud yn fwy hygyrch a deniadol i eraill sydd â'r un gwahaniaethau."*

**Sut gall adrannau'r Brifysgol gefnogi'r prosiect?**

Mae llawer o adrannau Prifysgol Aberystwyth wedi cynnig profiad gwaith trwy'r cynllun GO Wales, a gall hyn fod yn arbennig o ddefnyddiol lle mae myfyrwyr yn bryderus ynglŷn ag ymuno â gweithle. Gan fod y Brifysgol yn fan cyfarwydd, gall hyd yn oed ychydig ddyddiau o brofiad gwaith yma helpu i fagu'r hyder mae myfyriwr ei angen i ymgymryd â phrofiad gwaith ymhellach i ffwrdd.

Mae'r tîm GO Wales yn hapus i weithio gydag adrannau i hybu'r cynllun ymhlith eu myfyrwyr. Rydyn ni hefyd yn croesawu myfyrwyr a gyfeiriwyd atom gan staff y Brifysgol.

**Sut mae'r dyfodol yn edrych?**

Mae'n edrych yn debyg y bydd y prosiect yn cael ei ymestyn tan Ionawr 2022, felly rydyn ni wedi ein cyffroi wrth feddwl am y llu o fyfyrwyr y gallwn eu helpu yn ystod y cyfnod hwn. Mae tîm GO Wales Prifysgol Aberystwyth ar hyn o bryd yn arwain y ffordd o safbwynt targedau, maent ar y blaen i bob Sefydliad Addysg Uwch arall yng Nghymru, ac rydyn ni am weld y patrwm hwn yn parhau.

Cefnogir y cynllun GO Wales gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru.

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

# Ysbrydoliaeth i ddysgu ac addysgu yn y flwyddyn academaidd newydd




Roedd 'Codi Ymwybyddiaeth o Niwroamrywioldeb gyda staff Prifysgol Aberystwyth drwy raglen Inspiration' yn un o chwe phrosiect a gafodd arian eleni gan y Gronfa Datblygu Dysgu ac Addysgu.

Roedd y prosiect yn canolbwyntio ar y ffaith fod dysgwyr cyfannol, gweledol (y rhai y mae'n well ganddynt ddefnyddio delweddau, lluniau, lliwiau, a mapiau i drefnu gwybodaeth a chyfathrebu ag eraill) yn ei chael yn arbennig o anodd dangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ar batrwm llinol llawer o aseiniadau prifysgol e.e. traethodau, adroddiadau, cyflwyniadau.

Dan arweiniad Caroline White, John Harrington a Janet Rowland o'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr, nod y prosiect oedd hybu defnydd mapio cysyniadau fel offeryn dysgu.

Drwy gyfrwng y prosiect, mae'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr wedi ei gwneud yn bosib i'r holl staff a'r myfyrwyr i lawrlwytho copi rhad ac am ddim o raglen o'r enw *Inspiration*®.

Mae *Inspiration*® yn ei gwneud yn haws cofnodi syniadau naill ai ar ffurf weledol neu linol, ac yn arwyddocaol iawn, mae'n hwyluso newid rhwng y ddwy ffurf. Ar ôl cwblhau gwaith yn y rhaglen hon mae modd ei allforio i Microsoft Word, Powerpoint a PDF.

Gan ddefnyddio *Inspiration*®, mae'n bosib mapio canlyniad dysgu modiwl a gweld y cysylltiadau rhwng gwahanol ganlyniadau. Gellir cysylltu darlun o ofynion yr aseiniad dan sylw â dogfennaeth fwy manwl er mwyn gwneud yr aseiniad yn fwy hygyrch. Mae modd creu map o gynnwys darlith, a gall myfyrwyr ychwanegu nodiadau ato a gellir cyfeirio ato yn ystod y ddarlith.

Rhagwelir y bydd cyflwyno gwybodaeth a dealltwriaeth ar ffurf diagramau, gan greu cysylltiadau rhwng gwahanol rannau'r diagram, yn hwyluso prosesau syntheseiddio a dadansoddi.

Mae ymgorffori'r dull gweledol hwn yn rhan o waith i geisio darogan gwahanol anghenion ein myfyrwyr a'u galluogi i wireddu eu potensial academaidd.

Dywed y staff hefyd fod *Inspiration*® wedi bod yn ddefnyddiol iddynt yn eu gwaith ymchwil eu hunain, wrth gymryd nodiadau o bapurau a chyflwyniadau, gwneud yn siŵr eu bod yn deall syniadau penodol a datrys problemau.

I lawrlwytho eich copi rhad ac am ddim o *Inspiration*®, ewch i dudalen 'Meddalwedd' gwefan y Gwasanaethau Gwybodaeth.

Os oes gennych gwestiynau neu sylwadau am waith y prosiect, cysylltwch â'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr yn accessibility@aber.ac.uk.

Os oes gennych syniad ar gyfer prosiect i ddatblygu dysgu ac addysgu a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar brofiad dysgu'r myfyrwyr, gallwch ddysgu mwy am y Gronfa Datblygu Dysgu ac Addysgu yn www.aber.ac.uk/en/cdsap/teaching/ltef/.




Disgyblion ysgol o Fietnam a gwblhaodd Gwrs Profiad Prifysgol y DU yr haf hwn yn derbyn tystysgrifau gan yr Is-Ganghellor yr Athro Elizabeth Treasure.

## Golwg ar…

# y Ganolfan Saesneg Ryngwladol

Bu'n gyfnod prysur i Ganolfan Saesneg Ryngwladol y Brifysgol, a estynnodd groeso cynnes Aberystwyth i 130 o fyfyrwyr o 14 gwlad yr haf hwn.

Manteisiodd myfyrwyr rhwng 16 ac 58 oed ar gyrsiau'r Ganolfan i gael profiad o Aberystwyth, gyda rhai'n syrthio mewn cariad â'r gymuned.

Yng ngeiriau Fang Yanqiu o Tsieina: "*Y bobl yma wnaeth yr argraff fwyaf arnaf i. Maen nhw mor gyfeillgar fel nad ydw i eisiau gadael.*"

Dywedodd un arall, Ma Jianye: "*Fy atgofion o Aberystwyth yw'r mwyaf gwerthfawr yn fy mywyd. Gallai bywyd bob dydd ac astudio ddim bod yn well. Y bobl yw'r caredicaf i fi eu cyfarfod erioed.*"

**Roedd cyrsiau haf y Ganolfan yn 2017 yn cynnwys:**

**Cwrs Cyn-sesiynol**

Daeth myfyrwyr o Wlad Thai, Mali, Siapan, Tsieina, Twrci, De Korea ac Azerbaijan ar y cwrs cyn-sesiynol dwys yr haf hwn. Mae'r cwrs yn datblygu sgiliau iaith, ymchwil ac astudio'r myfyrwyr, gan gynnig dealltwriaeth o ddisgwyliadau'r diwylliant academaidd ym Mhrydain a galluogi myfyrwyr i ddechrau eu graddau'n hyderus. Anelir y cwrs cyn-sesiynol at fyfyrwyr sydd wedi derbyn cynnig amodol gan Brifysgol Aberystwyth, ac mae ei gwblhau'n llwyddiannus yn bodloni amodau iaith y cynnig.

**Cwrs Profiad Prifysgol y DU**

Mae'r Cwrs Profiad Prifysgol y DU yn y Ganolfan yn rhoi blas i ddisgyblion ysgol uwchradd ar astudio mewn prifysgol dramor.

Trochwyd myfyrwyr hŷn o Ysgol Uwchradd Nguyen Tat Thanh yn Hanoi, Fietnam ym mywyd Prifysgol Aberystwyth yr haf hwn, gyda rhaglen brysur o ddosbarthiadau Saesneg, seminarau a gweithdai mewn adrannau academaidd, ynghyd â digon o deithiau a gweithgareddau cymdeithasol.

Yr uchafbwynt i lawer oedd eu cyfnod yn yr Adran Astudiaethau Theatr Ffilm a Theledu, lle cawsant gyfle i wneud ffilm fer am eu hamser yma. Mae eu brwdfrydedd yn amlwg yn eu ffilm, *My Aber is Wonderful.*

Yng ngeiriau un o'r cyfranogwyr, Vu Phuong: "*Roeddwn i wrth fy modd gyda phob eiliad. Mae fel breuddwyd cael bod yma'n astudio … Bob bore roeddwn i'n deffro'n llawn cyffro am yr holl weithgareddau y byddwn i'n eu gwneud drwy gydol y dydd.*"

**Cwrs Saesneg a Sgiliau Cyfathrebu**

Ymunodd grwpiau o brifysgolion yn Tsieina, Siapan a Korea â theithwyr annibynnol o amrywiol wledydd yn Ewrop i fwynhau cwrs yn y Ganolfan sydd ag agwedd greadigol at ddysgu iaith ac sy'n cynnig rhaglen




*Myfyrwyr o Brifysgol Hohai, Tsieina, ar y Cwrs Saesneg ar gyfer Gwyddor Amgylcheddol.*

gymdeithasol fywiog gyda'r nos a thros y penwythnos. Caiff y boreau eu treulio yn yr ystafell ddosbarth, ac yn y prynhawn mae'r dysgu'n mynd allan, gyda gweithgareddau mor amrywiol â *"The Great IEC Cook Off"* (bara lawr, cacennau cri, selsig Morgannwg a chaws ar dost oedd ar y fwydlen yr haf hwn), gwneud ffilmiau, drama a chribinio'r traeth.

Roedd nifer o'r myfyrwyr yn ôl am yr ail dro, a chymerodd tri aelod o gymuned Syriaidd Aberystwyth ran yn y cwrs eleni hefyd.

**Cyrsiau pwrpasol**

Gan weithio gydag adrannau academaidd, mae'r Ganolfan Saesneg Ryngwladol hefyd yn cynnal cyrsiau pwrpasol unigryw i brifysgolion partner tramor, gan gyfuno astudiaethau Saesneg gyda phrofiad ymarferol yn seiliedig ar bwnc.

Roedd yr arlwy eleni'n cynnwys Saesneg ar gyfer Gwyddor Amgylcheddol a Saesneg gyda Chadwraeth Dŵr, a gyflwynwyd mewn cydweithrediad â'r Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear.

Ochr yn ochr â'u hastudiaethau iaith, cymerodd y myfyrwyr ran mewn seminarau, teithiau maes a sesiynau labordy yn cwmpasu amrywiaeth o faterion amgylcheddol ac archwilio technegau a chymwysiadau System Gwybodaeth Ddaearyddol a synhwyro o bell.

**Cyrsiau Datblygu Proffesiynol**

Daeth athrawon Saesneg o Sbaen, yr Eidal, Siapan a Ffrainc at ei gilydd i gael ysbrydoliaeth o'r newydd a rhannu arfer gorau yn ystod cwrs datblygu proffesiynol dros bythefnos yn y Ganolfan, gyda mewnbwn ychwanegol gan gydweithwyr yn yr Ysgol Addysg.

Casgliad Nicola Busetto, cyfranogwr o'r Eidal oedd bod: *"y staff addysgu, cyfleusterau'r Brifysgol a'r llety yn Aberystwyth o'r safon orau",* a dywedodd Tian Min, athrawes ysgol ganol o Tsieina y bydd ei chyfnod ym Mhrifysgol Aberystwyth yn *"ysbrydoli ac yn cyfoethogi"* ei haddysgu.

**Achrediad y Cyngor Prydeinig**

Ym mis Awst, derbyniodd y Ganolfan Saesneg Ryngwladol ei hadroddiad achredu diweddaraf gan y Cyngor Prydeinig yn dilyn arolygiad ym mis Mawrth.

Mae'r cynllun yn sicrhau ansawdd i fyfyrwyr rhyngwladol sy'n dilyn neu sy'n bwriadu dilyn cyrsiau Saesneg fel iaith dramor mewn prifysgolion a cholegau ac ysgolion yn y DU.

Mae adroddiad achredu'r Cyngor Prydeinig ar gyfer 2017 yn nodi cryfderau mewn meysydd sy'n cynnwys addysgu, gofal myfyrwyr a llety, ac mae'n nodi bod adnoddau dysgu ac addysgu'r Brifysgol o safon uchel iawn a bod cyfarpar technolegol a chymorth rhagorol ar gael.

Yn ystod y tymor, mae'r Ganolfan Saesneg Ryngwladol yn cefnogi llwyddiant academaidd myfyrwyr cartref, yr UE a rhyngwladol drwy ymgynghoriadau ysgrifennu un i un, ymgynghoriadau iaith un i un, modiwlau ysgrifennu a sgiliau â chredydau, a seminarau sgiliau academaidd.

www.aber.ac.uk/cy/student-learning-support




*Myfyrwyr cyn-sesiynol yn mwynhau'r cyfleusterau astudio grŵp Melin Syniadau.*

Rhagor o wybodaeth Y Ganolfan Saesneg Ryngwladol www.aber.ac.uk/en/international-english

# Ffocws ar…
# y Cynllun Cyfraniad Effeithiol



Bu Ruth Fowler o'r Adran Adnoddau Dynol yn sgwrsio â Dr Anwen Jones (Pennaeth yr Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu) er mwyn clywed ei syniadau a'i barn am broses syml y Brifysgol o reoli perfformiad, y Cynllun Cyfraniad Effeithiol.

**Beth yw eich barn chi am y Cynllun Cyfraniad Effeithiol?**
Mae mynd trwy'r Cynllun Cyfraniad Effeithiol wedi bod yn brofiad cadarnhaol, ac fe ddywedwn i ei fod yn arf gwirioneddol werthfawr i staff o safbwynt y cyflogedig a'r cyflogwr. Mae'r cynllun newydd yn teimlo'n llai clogyrnaidd na'r hen gynllun Adolygu Perfformiad a Datblygiad Staff (SDPR). Mae darlithio yn swydd hynod o amrywiol, ond rwyf o'r farn y bydd y Cynllun Cyfraniad Effeithiol yn rhoi'r aelod o'r staff mewn sefyllfa i gymryd cam yn ôl ac edrych ar eu swydd yn wrthrychol a'i hadolygu yn ei chyfanrwydd.

Mae'r Cynllun Cyfraniad Effeithiol yn galluogi ystyriaeth ystyrlon o weithgareddau proffesiynol allweddol sydd yn aml yn cael eu categoreiddio o dan benawdau bras megis ymchwil neu addysgu ac ysgolheictod, ac yn hwyluso ein dealltwriaeth o'r ffordd mae pob gweithgaredd arbennig yn berthnasol i agenda broffesiynol gydlynol.

**Pa mor ddefnyddiol fu'r Cynllun i chi fel Pennaeth Adran?**
A bod yn onest roeddwn i'n ei gael yn amhrisiadwy, yn fwy felly efallai am fy mod yn Bennaeth Adran newydd. Rhoddodd y broses olwg gyffredinol i mi o'r ffordd mae'r Adran yn gweithio, ble roedd gofyn i ni wneud pethau i weithio'n well, a lle roedd gofyn i ni wahanu rhannau arbennig o'r gwaith.

Fe'm galluogodd i ddeall anghenion a ffurf yr adran, ac anghenion y staff yn llawer gwell, a gwnaeth yn sicr fy mod wedi fy mhlygio i mewn mewn modd na fyddwn ar wahân i hynny.

Nid yw pawb yn gwybod beth mae pawb arall yn ei wneud, ond teimlwn fel Pennaeth Adran fod y Cynllun Cyfraniad Effeithiol yn gadael i mi roi staff gyda'r un diddordebau mewn cysylltiad â'i gilydd.

Fel rheolwr roedd cael awr gydag unigolyn lle y gallant siarad â chi ac y gallwch chwithau weld beth maent yn ei wneud a thrafod mathau o waith yr hoffent ei ddatblygu ymhellach a nodi anghenion hyfforddi, yn beth hynod o dda.

**Beth mae ei staff yn ei feddwl o'r cynllun?**
Cefais fy synnu ar yr ochr orau. Credaf bod y mwyafrif o'r staff o'r farn bod yr amser a dreuliwyd ar y broses Cynllun Cyfraniad Effeithiol wedi bod yn fuddsoddiad gwirioneddol fuddiol.

Nid yw llenwi ffurflenni yn beth poblogaidd byth, ond credaf i'r staff fwynhau'r profiad a'i gael yn addysgiadol yn nhermau cysylltu'n fwy strategol â'u gyrfa.

Mae rhai rhannau o'r ffurflen yn fwy heriol na'i gilydd. Ond, mae rhai o'r cwestiynau mwy anodd, er enghraifft sut mae eu gwaith yn cyd-daro ag amcanion ac uchelgeisiau cyffredinol y Brifysgol, wedi bod yn ddefnyddiol oherwydd mae'n gwneud y staff yn ymwybodol o'r amcanion a pherthynas eu gwaith â'r amcanion hynny.

Rwy'n credu bod staff wedi mwynhau'r profiad o fyfyrio ar yr hyn a gyflawnwyd ganddynt ac, yn amlach na pheidio, roedd y cofnod cyrhaeddiad yn sylweddol iawn. Mae nodi'r cyflawniadau hyn yn werthfawr iawn i staff wrth ystyried datblygiad eu gyrfa.

# *Springboard*



Mae carfan arall o aelodau'r staff wedi cwblhau'r Rhaglen Datblygu i Fenywod *Springboard*, gan fynd â chyfanswm y staff sydd wedi cwblhau'r cwrs ers 2014 i gant bron iawn.

Mae Sbringfwrdd yn gwrs sydd wedi ennill gwobrau ac sydd wedi ei gynllunio ar gyfer merched o bob cefndir, oedran a chyfnodau yn eu bywyd sydd eisiau gwneud byd gwell iddynt yn y gwaith ac yn y cartref, wrth ddatblygu'r sgiliau ymarferol a'r hyder i gymryd y camre hyn.

Mae'r rhaglen sy'n cael ei chyflwyno dros dri mis yn cynnwys pum elfen syml ond nerthol sydd bob un yn seiliedig ar realiti:

1. Llyfr gwaith rhagorol *Springboard*, sy'n cael ei ddiweddaru'n gyson ac yn cynnwys holl ddeunydd y rhaglen gyfan.
2. Pedwar gweithdy undydd dros gyfnod o dri mis. Dim ond am un diwrnod y mis y mae'r staff ar gael.
3. Modelau ymddygiad ysbrydoledig – pobl y gall y staff berthnasu â hwy ac a fydd yn eu gwneud yn sioncach eu cerddediad.
4. Annog rhwydweithiau effeithiol yn y grŵp, ac felly bydd eu cynnydd yn hunanbarhaol.
5. Cyfundrefn cefnogi leol i'w cymell i ddal ati.

Mae'r diolch am lwyddiant y rhaglen yn ddyledus i gefnogaeth llawer o'r staff ar bob lefel ar draws y Brifysgol. Mae'r siaradwyr yn ystod y rhaglen wedi cynnwys y cyn Weinidog Jane Davidson, Yr Athro Elizabeth Treasure, Dr Debra Croft, Dr Rhian Hayward, a Jo Hopkins.

Os oes gan rywun ddiddordeb mewn mynychu'r gweithdy nesaf cysylltwch â Joy Arkley, joa19@aber.ac.uk. Os bydd digon o alw bydd rhaglen newydd yn dechrau yn hydref 2017.





# Fy ymchwil

## Yn y rhifyn hwn, mae Dr Fiona Corke, Rheolwr Smarthouse yn y Ganolfan Ffenomeg Planhigion yn IBERS Gogerddan, yn disgrifio ei gwaith.

I'r rheini ohonoch nad ydych eto wedi ymweld â'r Ganolfan Ffenomeg Planhigion, dyma ble rydym ni'n tyfu planhigion mewn tŷ gwydr wedi'i awtomeiddio ar gludfeltiau. Mae Ffenomeg yn air ffurfiol ar gyfer mesur sut mae organeb yn tyfu ac yn newid dros amser neu mewn ymateb i driniaeth.

Yn amlwg mae pobl wedi bod yn 'mesur' planhigion ers miloedd o flynyddoedd wrth iddyn nhw ddethol rhai gyda mwy o hadau neu ffrwythau mwy o faint. Mae bridwyr yn mesur eu planhigion yn fwy gofalus ond mae'r math hwn o waith yn cymryd llawer o amser.

Y gwahaniaeth yn y Ganolfan Ffenomeg Planhigion yw ein bod yn gweithredu 24/7 ac yn tynnu lluniau rheolaidd, a gaiff eu dadansoddi i gael gwybodaeth am faint, lliw a nodweddion eraill dros oes y planhigyn. Yn bwysig, mae'r awtomeiddio hefyd yn rheoli'r dyfrio, gyda defnydd pob planhigyn o ddŵr yn cael ei gofnodi.

Rydym ni'n Gyfleuster Cenedlaethol ac felly'n derbyn arbrofion o bob rhan o Ewrop a'r DU yn ogystal ag IBERS ac ar amrywiaeth eang o gnydau o geirch i wenith, gwair, meillion a chnydau bioynni.

Rwyf i'n helpu gwyddonwyr 'cwsmer' i gynllunio eu harbrofion yn ein cyfleuster unigryw. Mae llawer o'r gwaith yn cael ei dargedu at ddeall effeithiau straen sychder, gwres a maetholion ar blanhigion yng nghyd-destun newid yn yr hinsawdd.

Rwyf i'n gyfrifol am fonitro'r amodau tŷ gwydr gyda meddalwedd rheoli, ond mae ymweld â'r planhigion a gwirio eu cynnydd yn rhan bwysig o fy swydd. Rwyf i wrth fy modd yn gweithio gyda'r planhigion, yn hau, sgorio neu gynaeafu, ond mae gen i gymorth medrus iawn gan fod llawer o fy amser yn mynd ar ddadansoddi data. Mae angen cannoedd o blanhigion ar gyfer y rhan fwyaf o arbrofion, felly does byth prinder data!

Rydym ni'n cael llawer o ymwelwyr drwy Ffenomeg, yn amrywio o wleidyddion, academyddion a ffermwyr i ddisgyblion ysgol a myfyrwyr Erasmus, felly mae digon o gyfleoedd i fi egluro ein gwyddoniaeth! Mae hyn wedi cynnwys gweithio gyda Yr Athro Jo Hamilton drwy ei rhaglen SUSnet i gyflwyno ymchwil i fyfyrwyr gwyddoniaeth chweched dosbarth lleol.

Rwyf i'n angerddol dros ennyn brwdfrydedd pobl ifanc ynglŷn â phwysigrwydd planhigion a'u cyflwyno i ryfeddodau amrywiaeth planhigion, sydd wedi fy arwain i drefnu digwyddiad lleol ar gyfer Diwrnod Chwilfrydedd mewn Planhigion yn Aberaeron yn y blynyddoedd diweddar.

Rwyf i bob amser wedi bod â diddordeb mewn natur ac arweiniodd hynny fi i astudio Gwyddor Planhigion ym Mhrifysgol Nottingham ac yna PhD yn Sefydliad John Innes yn Norwich. Yn ddiweddar bûm i yn y '*State of the World's Plants Symposium*' yng Ngerddi Kew oedd yn arddangos ehangder a dyfnder rhyfeddol ymchwil planhigion yn fyd-eang y tu hwnt i amgylchedd y labordy, tŷ gwydr neu faes.

Y tu allan i'r gwaith fi yw cadeirydd grŵp lleol yr Ymddiriedolaeth Natur sy'n tynnu sylw at yr amrywiaeth rhyfeddol o fywyd gwyllt a gwybodaeth arbenigol sydd yn yr ardal hon.

vitae realising the potential of researchers
Member Organisation

Am ragor o wybodaeth am y Ganolfan Ffenomeg Planhigion ewch i: www.plant-phenomics.ac.uk

# Penodiadau

## Croeso cynnes i gydweithwyr a ymunodd â'r Brifysgol yn y misoedd diwethaf, gan gynnwys:

### Adran Gyllid

**Robert Eastwood:** Ymunodd â'r Brifysgol ym mis Gorffennaf fel Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro am chwe mis, tra bo Cyfarwyddwr Cyllid newydd parhaol yn cael ei geisio. Mae ganddo gyfoeth o brofiad ym maes cyllid addysg uwch ac mae wedi gweithio fel Cyfarwyddwr Cyllid ym Mhrifysgol Lerpwl a Phrifysgol Brunel.


### Athrofa y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig



Mae **Dr Caitlin Potter** wedi ymuno â'r Brifysgol fel ymchwilydd ôl-ddoethurol ar brosiect PollerGEN, fydd yn cymhwyso technolegau'n seiliedig ar DNA i adnabod paill yn yr awyr. Cwblhaodd ei PhD mewn Gwyddorau Biolegol ym Mhrifysgol Bangor, a chyn hyn roedd ganddi rôl ôl-ddoethurol yn Adran Gwyddorau Bywyd ac Amgylcheddol Prifysgol Bournemouth.

Mae **Dr Ally Evans** wedi dychwelyd i IBERS fel cydymaith ymchwil ôl-ddoethurol ar ôl cwblhau ei PhD mewn ecoleg forol yn yr adran yn 2015. Bydd yn gweithio ar y prosiect newydd a gyllidir gan yr UE, *Ecostructure*, sy'n ymchwilio ffyrdd i gyfoethogi bioamrywiaeth mewn cynefinoedd morol artiffisial.





Penodwyd **Dr Ludi Wang** yn Gydymaith Ymchwil Ôl-ddoethurol. Derbyniodd Ludi MSc a PhD o Brifysgol Caerfaddon, ac mae wedi treulio'r wyth mis diwethaf yn dechnegydd ymchwil ym Mhrifysgol Caerefrog. Mae'n gweithio ar gampws Gogerddan ar brosiect a gyllidir gan y BBSRC â'r teitl '*F-actin associated proteins implicate new mechanisms involved in plant self-incompatibility induced programmed cell death (SI-PCD).*'

### Adran Ffiseg



Ymunodd **Dr Simon Cooil** â'r adran yn ddiweddar fel cydymaith ymchwil ôl-ddoethurol ar y prosiect SPARC II, sy'n ymchwilio ac yn tyfu deunyddiau ymarferol uwch newydd ar gyfer technolegau ffotofoltaig solar. Derbyniodd Simon PhD mewn Ffiseg o PA, ac ers hynny mae wedi bod yn gweithio ym Mhrifysgol Gwyddoniaeth a Thechnoleg Norwy (NTNU). Mae'n cynnal cysylltiadau cryf gyda'i gydweithwyr yn Sgandinafia, ar ôl cael ei benodi hefyd yn Athro Cynorthwyol yn Adran Ffiseg NTNU.

### Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol

Ymunodd **Dr Xymena Kurowska** â'r adran fel Cymrawd Marie Skłodowska-Curie. Derbyniodd Xymena ei doethuriaeth o'r Athrofa Prifysgol Ewropeaidd yn Fflorens ac ar hyn o bryd mae'n Athro Cyswllt yn y Brifysgol Ewropeaidd Ganolog yn Budapest. Mae ei phrosiect yn yr Adran yn canolbwyntio ar wleidyddiaeth ffiniau a hyfforddiant gwarchodwyr ffiniau Ewrop.



### Ysgol Busnes Aberystwyth



Mae **Sue Fowler** wedi dychwelyd i Ysgol Busnes Aberystwyth i weithio gyda'r Athro Peter Midmore ar brosiect Horizon 2020 SURE-Farm. Cyn hyn bu Sue yn gweithio'n achlysurol i'r Brifysgol ers 1986, fel ymchwilydd, swyddog ymestyn a Chyfarwyddwr Canolfan Organig Cymru.

### Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr

Mae **Melissa Croxon** wedi cael ei phenodi'n Ymarferydd Lles Myfyrwyr - gydag Arbenigedd mewn Cwnsela, a bydd hi'n gweithio yn y Ganolfan Croesawu Myfyrwyr. Yn wreiddiol o Sir Amwythig, graddiodd Melissa o Brifysgol Aberystwyth yn 2012 gyda BSc mewn Seicoleg, ac aeth ymlaen i astudio MA mewn Cwnsela Clinigol ym Mhrifysgol Caer.



# Ymddeoliad



Ddiwedd mis Gorffennaf, ffarweliodd y Gwasanaethau Campws a Masnachol â'r Goruchwyliwr Preswylfeydd **Marina Vaughan**, oedd wedi gweithio i'r Brifysgol am 45 o flynyddoedd. Gwelodd lawer o newidiadau ers ei diwrnod cyntaf yn y gwaith nôl yn 1971 a chyn iddi adael, bu'n rhannu rhai o'i hatgofion gyda Newyddion ABER.

Dechreuodd Marina weithio fel cogydd dan hyfforddiant yn Neuadd Penbryn yn 17 oed. Aeth yn ei blaen i dreulio yn agos i dri degawd yn cyflawni dyletswyddau arlwyo a domestig yn y neuaddau preswyl glan môr, yn gyntaf Carpenter ac yna Plynlimon.

*"Roedd pethau'n fwy llym bryd hynny, gydag amseroedd penodol ar gyfer brecwast, cinio a swper. A doedd neb yn cyrraedd yn eu dillad nos! Roedd y bwyd yn fwy sylfaenol a thraddodiadol – ciniawau rhost a selsig a thatws. Roeddech chi'n bwyta'r hyn oedd yn cael ei gynnig – yr unig ddewis oedd cael grefi neu beidio."*

Wrth sôn am sut mae'r oes wedi newid, roedd Marina'n cofio yn y 1970au bod myfyrwyr yn gorfod mynd i ddarlithoedd mewn cap a gŵn, byddai tiwtoriaid yn aml yn ymweld â myfyrwyr yn eu preswylfeydd, ac unwaith bob tymor byddai gwahoddiad i fyfyrwyr eistedd ar y prif fwrdd gyda'r warden, a Marina a'i chydweithwyr yn darparu gwasanaeth arian.

Mae Marina bellach yn mwynhau ei hymddeoliad gyda'i gŵr (adeiladwr sydd wedi ymddeol) a'u dau gi Jack Russell. Mae'n mwynhau coginio i Fyddin yr Iachawdwriaeth, canu yng Nghôr Tenovus ac ymweld â'i mab Stuart yng Nghaerdydd. Ond dyw Marina ddim wedi cau'r drws ar fyd gwaith, ac o bosib bydd yn cymryd swydd ran amser.



*Un o uchafbwyntiau niferus Marina oedd gweini ar y Tywysog Siarl yn Neuadd Pantycelyn yn 1983. Yn y derbyniad gwin, aeth tair o'r staff gweini at y Tywysog Siarl i dynnu'r llun answyddogol hwn, a chawsant eu cystwyo gan ei swyddogion diogelwch. O'r chwith i'r dde: Liz Scurlock, y Tywysog Siarl, Marina Vaughan ac Ena Gough.*



*Marina yng nghegin Neuadd Carpenter, 1990au. Ym mis Tachwedd 1998 pan ddinistriwyd pedair o'r neuaddau glan môr gan dân, seiliwyd yr ymgyrch achub yn Neuadd Carpenter, gyda Marina a'i chydweithwyr yn darparu lluniaeth i griwiau'r gwasanaethau brys, a chanolfan ar gyfer casglu deunydd ymolchi a dillad i'r myfyrwyr a effeithiwyd.*



*Taflwyd Marina i'r môr gan y cogydd a chydweithwyr eraill ar ddiwrnod cau cegin Neuadd Carpenter c.1999.*

# Ysgrifau Coffa



**Yr Athro Emeritus D. J. Bowen (1925-2017)**

Graddiodd yr Athro Bowen gydag Anrhydedd Dosbarth Cyntaf yn yr Adran Gymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth yn 1949, ac enillodd radd MA wedyn. Bu ar staff Adran Llawysgrifau'r Llyfrgell Genedlaethol am gyfnod cyn cael ei benodi'n ddarlithydd yn ei hen Adran yn 1953. Fe'i dyrchafwyd i Gadair Bersonol yn 1980 ac ymddeolodd yn 1989. Gwaith y Cywyddwyr oedd maes ei arbenigedd, ac ef oedd un o'n hawdurdodau mwyaf ar waith Beirdd yr Uchelwyr. Cyhoeddodd yn helaeth ar waith Dafydd ap Gwilym a'r Cywyddwyr Cynnar, a chyhoeddwyd ei olygiad meistraidd o waith y pencerdd Gruffudd Hiraethog (m. 1564) gan Wasg Prifysgol Cymru yn 1980, *Gwaith Gruffudd Hiraethog*. Bydd llawer o'i gydweithwyr a'i gyn-fyfyrwyr yn cofio ei ysgolheictod disglair a'i gyfraniad amhrisiadwy i hanes llenyddiaeth Gymraeg.

# Canolfan Y Celfyddydau Aberystwyth

## Phill Jupitus: Juplicity


Llun gan Andy Hollingworth

**Dydd Iau 12 Hydref**

Ymunwch â'r digrifwr, bardd, dyfeisiwr, a seren y teledu, Phill Jupitus, am dros awr o straeon, chwerthin a difyrrwch. Gwyliwch gyda phleser a/neu arswyd wrth i'r digrifwr profiadol hwn lwyddo i ffeindio hwyl yng nghanol llanast ei fywyd ei hun a'r byd ansicr sydd o'i gwmpas.

Themâu a sefyllfaoedd i oedolion, ond yn cael eu cyflwyno'n blentynnaidd.

## The East Pointers



**Dydd Mercher 18 Hydref**

Wedi eu ffurfio yn 2014, mae pob aelod o'r East Pointers - y chwaraewr banjo/canwr/dawnsiwr-step Koady Chaisson, y ffidlwr/canwr Tim Chaisson, a'r gitarydd/canwr Jake Charron - yn gerddor talentog yn ei rinwedd ei hun, ac efo'i gilydd maent yn cynhyrchu cyfuniad o donau, caneuon a dawnsiau-step Celtaidd sy'n cael eu mowldio'n rhywbeth Canadaidd unigryw trwy hanes sy'n mynd yn ôl cenedlaethau.

## How to Win Against History

**Dydd Mawrth 31 Hydref a Dydd Mercher 1 Tachwedd**



Roedd Henry Cyril Paget, 5ed Marcwis Môn, yn un o ddynion cyfoethoca'r byd, tan iddo golli'r cyfan am fod yn rhy ddiawledig o ffabiwlys. Bu sioe gerdd ffyrnig, ddoniol, drasig-ysblennydd, gyhyrog, newydd Seiriol Davies sydd am fod yn rhy rhyfedd ar gyfer y byd (ond yn ysu am iddo beidio â'th anghofio) yn fuddugoliaeth euraid a llachar-ddiemwntog yng ngwyl y Fringe yng Nghaeredin yn 2016. Mae'r sioe bellach ar daith ar hyd Cymru, mewn cydweithrediad balch gyda Pontio, Bangor, a chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Celfyddydau Lloegr.

# Arddangosfeydd yr Ysgol Gelf

Mae Oriel yr Ysgol Gelf ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 10 y bore a 5 y prynhawn. Mynediad am ddim.


'Cwningen Ddu', Graham Sutherland. © Ystad Graham Sutherland

## Tu Allan o Chwith: Haniaethu'r Dirwedd

**9 Hydref – 10 Tachwedd**

Printiau, lluniau, paentiadau a ffotograffau o Gasgliad yr Ysgol Gelf


'Dagrau Heraclitus', Frances Woodley

## Siaradwch â Mi: Sgyrsiau Cyfoes â'r Traddodiad Bywlunio

**16 Hydref – 10 Tachwedd**

Frances Woodley (Arddangosfa PhD, Oriel 3)


'Conwy', Peter Davies (gwydr a chyfryngau cymysg)

## Peter Davies: Pererindod

**27 Tachwedd 2017 – 2 Chwefror 2018**

Arddangosfa o deithiau ecolegol, yn marchogaeth gyda Beca a'i merched dros y wladwriaeth wleidyddol, dan ddylanwad hanes, diwylliant a phobl Cymru.

## Ail-greu 'Mighty Joe Young': Y Ffilm, y Cof, y Cogio Bach

**20 Tachwedd 2017 – 2 Chwefror 2018**

Albwm ôl-gynhyrchu Hollywood o Gasgliad yr Ysgol Gelf

